

# Ffurflen Caniatâd Rhiant

Mae Chwaraeon Cymru angen caniatâd rhiant neu warcheidwad cyn y gall plentyn iau na 18 oed gymryd rhan mewn gweithgareddau ym Mhlas Menai. Os ydych chi'n fodlon i'ch plentyn/person iau na 18 oed yn eich gofal gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, llenwch a llofnodwch y ffurflen hon a'i dychwelyd at:

..... (TREFNYDD Y TRIP) Erbyn: ..... (DYDDIAD)

<b>ENW'R YSGOL/SEFYDLIAD:</b>	
<b>DYDDIAD CYRRAEDD:</b>	<b>DYDDIAD GADAEL:</b>

## Manylion y Cyfranogwr:

<b>ENW:</b>	<b>DYDDIAD GENI:</b>	<b>OEDRAN:</b>	<b>GWRYW/BENYW:</b>
<p>Nid yw'r cyfranogwr a enwir yn dioddef o unrhyw gyflyrau meddygol neu alergeddau ac nid oes ganddo unrhyw anableddau. <b>TICIWCH YMA</b> os oes ganddo unrhyw rai o'r rhain ac wedyn ychwanegu manylion isod.</p>			
<b>CYFLYRAU MEDDYGOL:</b>	<b>ALERGEDDAU:</b>	<b>ANABLEDDAU:</b>	<b>GOFYNIION MYNEDIAD:</b>

**NEU** os nad yw'r cyfranogwr yn dioddef o unrhyw gyflyrau meddygol neu alergeddau ac os nad oes ganddo unrhyw anableddau **TICIWCH YMA**

## Manylion cyswllt mewn argyfwng

<b>ENW CYSWLLT MEWN ARGYFWNG:</b>	<b>PERTHYNAS:</b>	<b>RHIF CYSWLLT MEWN ARGYFWNG:</b>
<b>ENW CYSWLLT ARALL MEWN ARGYFWNG:</b>	<b>PERTHYNAS:</b>	<b>RHIF CYSWLLT MEWN ARGYFWNG:</b>
<b>CYMORTH CYNTAF A THRINIAETH FEDDYGOL MEWN ARGYFWNG</b>	Llofnodwch y ffurflen hon a nodi dyddiad arni os ydych yn fodlon i'ch plentyn/cyfranogwr a enwir gael cymorth cyntaf neu driniaeth feddygol mewn argyfwng wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ym Mhlas Menai.	

## Caniatâd

### Cydnabod Risg

1. Rwyf yn cydnabod bod y ddogfen Cydnabod Risg ac Amodau Cymryd Rhan hon yn berthnasol i'r holl weithgareddau y mae'r cyfranogwr a enwir yn cymryd rhan ynddynt ym Mhlas Menai.
2. Rwyf yn datgan fy mod dros 18 oed.
3. Rwyf yn rhoi fy nghaniatâd i'r cyfranogwr a enwir gymryd rhan. Rwyf yn cydnabod y bydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch anturus neu egniïol ac yn derbyn bod risgiau o wneud hynny. Byddaf yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amodau cymryd rhan y manylir arnynt ar y ffurflen hon ac yn nhelerau ac amodau archebu Plas Menai sydd wedi'u cynnwys ar y ffurflen hon ac sydd ar gael yn [www.plasmenai.co.uk/terms](http://www.plasmenai.co.uk/terms). Rwyf yn cadarnhau ei fod yn 8 oed o leiaf a bod y gweithgareddau arfaethedig o fewn ei allu ef/hi.
4. Rwyf yn cytuno y bydd y cyfranogwr a enwir yn cymryd rhan yn y gweithgaredd/gweithgareddau yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r cyngor llafar ac ysgrifenedig penodol a roddir cyn a/neu yn ystod y gweithgaredd/gweithgareddau. Gall methu gwneud hynny arwain at anaf difrifol neu farwolaeth. Rwyf yn cydnabod cymal 11 telerau ac amodau archebu Chwaraeon Cymru sy'n berthnasol i ymddygiad afreolus. Mae'r rhain ar gael yn [www.plasmenai.co.uk/terms](http://www.plasmenai.co.uk/terms)
5. Rwyf yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth nad oes gan unrhyw gyfranogwyr a enwir gyflwr meddygol heb ei ddatgelu sy'n debygol o gynyddu'r siawns o fod yn rhan o ddigwyddiad sy'n arwain at anaf iddo ef/hi ei hun neu eraill. Byddaf yn rhoi gwybod i Chwaraeon Cymru am unrhyw anaf neu salwch sy'n digwydd rhwng y dyddiad ar y ffurflen hon a dyddiad y trip arfaethedig. Rwyf yn cydnabod bod Chwaraeon Cymru'n cadw'r hawl i wrthod caniatáu i'r cyfranogwr a enwir gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau os ystyrir cyflwr meddygol neu arall sydd wedi'i ddatgan yn niweidiol i ddiogelwch y gweithgareddau hynny neu i'w cynnal heb anawsterau.
6. Rwyf yn deall ac yn derbyn y gall natur y gweithgareddau arwain at ddifrodi dillad.
7. Mae disgwyl i gyfranogwyr fod yn gyfrifol am eu heiddo eu hunain. Os bydd damwain yn gysylltiedig â'r cyfranogwr a enwir, neu golled neu ddifrod i'w eitemau personol ef/hi, rwyf yn cydnabod na fydd Chwaraeon Cymru'n atebol am unrhyw golled, difrod neu anaf uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n codi o neu mewn cysylltiad â'r Gweithgaredd/ Gweithgareddau (ac eithrio marwolaeth neu anaf personol a achosir gan esgeulustod Chwaraeon Cymru) a byddaf yn ildio pob ac unrhyw hawliad yn erbyn Chwaraeon Cymru yn y cyswllt hwn.

Rwyf yn dymuno i'r cyfranogwr a enwir gael cymryd rhan mewn gweithgareddau ym Mhlas Menai ac rwyf yn rhoi fy nghaniatâd iddo ef/hi wneud hynny. Mae llofnodi'r ffurflen hon yn dynodi y bydd y cyfranogwr a enwir yn cydymffurfio â'r holl reoliadau diogelwch a'r rheoliadau eraill y rhoddir gwybod amdanynt iddo.

Yn ystod yr ymweliad, efallai y bydd lluniau neu glipliau fideo'n cael eu tynnu o gwsmeriaid ar ran y Ganolfan a gallant ymddangos mewn deunyddiau marchnata neu ar gyfryngau cymdeithasol. Os **NAD YDYCH** yn dymuno i'ch plentyn/cyfranogwr a enwir gael tynnu ei lun neu ei ffilmio at y diben hwn, ticiwch y bocs.

Llofnodwch y ffurflen hon a nodi dyddiad arni os ydych yn cytuno â'r uchod.

ENW RHIANT/GWARCHEIDWAD:	LLOFNOD:	DYDDIAD: